

Prifysgol Abertawe

Nodyn Arweiniol Rheoli Gwastraff
NARG12 Deunyddiau Swyddfa

Awdur:	Fiona Wheatley
Cymeradwywyd gan:	Fiona Abbott
Dyddiad Adolygu:	09/11/2018

Nodyn Arweiniol Rheoli Gwastraff NARG12 Deunyddiau swyddfa	
Lleoliad Cynhyrchu	Amrywiol
EWC	20-03-01
Math	Gwastraff a Reolir
Dull Gwaredu	Wedi'i ddidoli ar gyfer ailgylchu
Math o Fin/Sach	Bin Ailgylchu Deunyddiau Swyddfa - Tŷ Fulton a Llyfrgell Singleton

Gofynion Dyletswydd Gofal

Dylai unrhyw fusnes neu gorff cyhoeddus sy'n cynhyrchu deunyddiau gwastraff ddefnyddio'r hierarchaeth gwaredu gwastraff ar gyfer pob ffrwd er mwyn lleihau cyfanswm y gwastraff a anfonir i safleoedd gwaredu. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu sicrhau bod pob math o wastraff yn cael ei ddidoli ac y gwaredir arno drwy'r ffrwd gywir. Felly, ni ddylid anfon gwastraff i'r safle gwastraff dinesig oni bai nad oes unrhyw ddewis arall.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddidoli ei gwastraff cyn gwaredu arno a chanolbwyntio ar ddidoli'r ffrydiau ailgylchu allweddol: caniau, papur, plastig, bwyd a gwydr. Mae didoli deunyddiau cyn gwaredu arnynt yn gwella ansawdd y cynnyrch ailgylchu a hefyd mae'n cydymffurfio â Rheoliadau Gwastraff (Lloegr a Chymru) 2011. Yn ôl y rheoliadau, rhaid casglu deunyddiau megis papur, metel, plastig a gwydr, ar wahân er mwyn sicrhau ansawdd uchel y deunydd wedi'i ailgylchu.

Yn aml, caiff deunyddiau swyddfa eu rhoi yn y biniau ar gyfer deunyddiau na ellir eu hailgylchu (sachau du), ond mae'r Brifysgol wedi cydweithio â [TerraCycle](#) i gynnig gwasanaeth ailgylchu offer ysgrifennu. Mae'r Brifysgol hefyd yn cynnig cyfleuster lleol ar gyfer cael gwared ar offer ysgrifennu, gan ganiatáu i'r cyhoedd a busnesau lleol ddod ag offer ysgrifennu i'r safle i'w hailgylchu. Bydd unrhyw elw a wneir yn cael ei roi i elusen leol.

Gellir ailgylchu'r offer ysgrifennu canlynol drwy Gynllun Terracycle y Brifysgol:

- Pennau Bic a beiros eraill
- Uwcholeuwyr
- Hylif cywiro
- Llygod cywiro
- Ysgrifbinnau

Hefyd, gellir casglu eitemau eraill megis ffeiliau lifer mewn sach glir yn barod i'w hailgylchu.

Cyfarwyddiadau Gwaredu

Gellir rhoi offer ysgrifennu mewn bin ailgylchu arbennig a leolir o flaen Tŷ Fulton ar Gampws Parc Singleton, ger caffi Blas. I gael manylion am leoliadau eraill, e-bostiwch estates-waste@abertawe.ac.uk



I drefnu casglu ffeiliau lifer, cyflwynwch gais am waith drwy borth y [Ddesg Gymorth](#). Dylai pob cais am waith gynnwys côd cost, oherwydd codir 10c fesul ffeil am y casgliadau hyn (10 yw'r nifer lleiaf o ffeiliau y gellir eu casglu).



Costau Gwaredu

Codir ffi fach i gasglu ac ailgylchu ffeiliau lifer. Darperir y gwasanaeth hwn gan y contractwr a benodwyd gan y Brifysgol i ymdrin â gwastraff cyfrinachol.

Am arweiniad pellach, e-bostiwch estates-waste@abertawe.ac.uk



Gwastraff derbyniol Accepted waste

Pennau ysgrifennu, pinnau ffelt, aroleuwyr, marcwyr bwrdd gwyn
Pens, felt tips, highlighters, markers



Offeryn cywiro a phenalliau mecangddol (potiau hylif a thap), ysgrifbinnau, cetrils inc
Mechanical pencils and correction instruments (tape and fluid pots), fountain pens, ink cartridges



Gwastraff annerbyniol Waste not accepted

Noder, ni dderbynimir ffyn giud
Please note, glue sticks are not accepted



Ffyn giud
Glue sticks



Rhwbyr
Rubbers



Frennau mesur
Rulers



Penslliau
Pencils



Gwrthrychau minlog
Sharp objects

